Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Cylchgronau Cymru
Welsh Journals Online

| | |
|---|---|
| Awdur<br>Author | David Jenkins. |
| Teitl erthygl<br>Article title | "Iorwerth ap Madog :" |
| Teitl cylchgrawn<br>Journal title | *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*<br>*National Library of Wales journal* |
| Rhifyn<br>Issue | Cyf. 8, rh. 2 (Gaeaf 1953), p. 164-170. |
| url | |

Crëwyd a chyhoeddwyd y fersiwn digidol hwn o'r cylchgrawn yn unol â thrwydded a roddwyd gan y cyhoeddwr. Gellir defnyddio'r deunydd ynddo ar gyfer unrhyw bwrpas gan barchu hawliau moesol y crewyr.

The National Library of Wales has created and published this digital version of the journal under a licence granted by the publisher. The material it contains may be used for all purposes while respecting the moral rights of the creators.

JISC

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# IORWERTH AP MADOG

## GŴR CYFRAITH O'R DRYDEDD GANRIF AR DDEG

Mewn llawer o'r llyfrau cyfraith Cymraeg ceir cyfeiriadau at ynaid neu wŷr eraill; a defnyddiwyd rhai o'r enwau hynny i ffurfio enwau ar y llyfrau. Gwyddom rywfaint am rai o'r gwŷr hyn oddi wrth ffynonellau eraill heblaw'r llyfrau cyfraith: er enghraifft, yn ôl pennawd y ddegfed bennod o Lyfr X *Ancient Laws* (a dynnwyd o lawysgrif *Q*, sef Wynnstay 36), 'Llyma lyfyr agy6eira6d Kynyr vab Cad6ga6n, ac aede6is gan Jor6erth y vab, ac a ede6is ynteu gan Gad6ga6n ac Eynon y veibon', a gwyddom oddi wrth gais y tywysog Llywelyn ap Gruffudd i Gomisiwn Edward I yn 1281 fod meibion Cynyr ap Cadwgawn yn ynaid yn Arwystli yr adeg honno.[1]

Yn llawysgrifau'r hyn a argraffwyd gan Aneurin Owen dan yr enwau 'Dull Gwynedd' a 'Venedotian Code', enwir Iorwerth ap Madog sawl gwaith fel awdurdod. Dyma'r cyfeiriadau:

(*a*) Breiniau Gwŷr Arfon: V.C.II.ii.1; llawysgrifau *A*, *E*.[2]

(*b*) Dechrau'r Llyfr Prawf: V.C.III, Rhaglith, paragraff olaf; llawysgrifau *C*, *D*, *K*, *Ll*.

(*c*) Dechrau'r Atodiad i'r llyfr Prawf: V.C.III.xx.17a; llawysgrifau *A*, *C*, *D*, *E* (ni cheir y cyfeiriad hwn yn *K*, ac nid oes gennym dystiolaeth am *Ll*).

(*ch*) Cyfarch Cyffyll: IV.iii.1; llawysgrifau *A*, *E*, *Col*, *Ll*.

Oherwydd y cyfeiriadau hyn, teimlir bellach mai 'Llyfr Iorwerth' yw'r enw mwyaf priodol ar 'Dull Gwynedd'.

Gwaith go anodd fyddai ceisio lleoli gŵr o enw mor gyffredin ag Iorwerth ap Madog; ond mewn un llawysgrif rhoir ei enw yn llawnach: yn ôl *C*. 190 *verso*, *yorverth vap madavc vap rahavt* oedd y gŵr a welodd fod yn gryno ysgrifennu gwerth y tai a'r dodrefn a chyfar a llwgr ŷd fel atodiad i'r Llyfr Prawf, ac os gellir derbyn hynny, mae'r gwaith yn llawer haws. Awgryma'r ffaith fod Iorwerth wedi'i enwi fel awdurdod ar Freiniau Gwŷr Arfon mai gŵr o Arfon oedd ef, ac o edrych ar achau a dogfennau Arfon ceir defnydd i'w leoli.

Gan gychwyn gyda'r defnydd a geir mewn amryw lawysgrifau dan yr enw 'Bonedd Gwŷr Arfon' neu 'Gwehelyth Arfon', a defnyddio'r hyn a geir am denantiaid *villa* Dinlle yn y *Record of Caernarvon* a'r wybodaeth sydd yn y llyfrau achau, gellir llunio'r daflen achau sy'n dilyn y tudalen yma: rhoir mewn atodiad isod ymdriniaeth â'r defnyddiau y seiliwyd y daflen arnynt. Fe sylwir ar unwaith nad Iorwerth ap Madog yw'r unig ŵr o'i dylwyth a oedd yn adnabyddus am ei

## TAFLEN ACHAU




Enwau mewn PRIF LYTHRENNAU sy'n enwi gwelyau yn Ninlle;

enwau deiliaid yn Ninlle yn 1352 yw'r enwau mewn *llythyren italig*.

waith cyfreithiol: gwelwyd hynny gan y sawl a luniodd yr ymdriniaeth â Phymtheg Llwyth Gwynedd a gyhoeddwyd fel atodiad i argraffiad Rhŷs o *Tours in Wales* Pennant. Wrth sôn am Gilmin Droetu dywed ef[3]:

> 'His posterity were wise and discreet men in all their ages; and many of them were learned in the laws in the time of the kings and princes of *Wales* and were judges, as *Morgeneu Ynad ap Gwrydr*, and *Cyfnerth* his son, whose Law-Book is yet extant, fairly written on parchment; *Morgeneu Ynad ap Madoc*; *Morgan Ynad ap Meuric*, and *Madoc Gôch Ynad*.'

Cyfyrder i Ddyfnaint (tad Gwrydr) oedd Morgan Ynad ap Meurig, ac fel yr awgrymir yn yr Atodiad, mae'n debyg mai dyblad ar Morgenau ap Gwrydr yw Morgenau ap Madog; ond gellir ychwanegu fod Iddig Ynad wedi'i enwi yn Llyfr Blegywryd fel un o'r comisiwn a luniodd Lyfr Cyfraith y Tŷ Gwyn.[4] Nid yw'n debyg fod Iddig Ynad, pwy bynnag oedd ef, mewn gwirionedd yn cydoesi â Hywel Dda, ond nid yw'n amhosibl mai ef oedd yr Iddig a enwir yn yr achau fel gor-ŵyr i Gilmin Droetu.

Beth bynnag am yr enwau unigol, mae'n amlwg fod gennym yma dylwyth o wŷr cyfraith; ac odid nad yn nhermau tylwyth felly y dylem feddwl am ysgolion cyfraith yng Nghymru. Rhywbeth o'r fath oedd y patrwm yn Iwerddon: yno, gallai ysgol fod heb fwy na dau neu dri o ddisgyblion ar y tro, a'r rheini gan amlaf yn perthyn i'r athro.[15] Gwyddom fod swydd ynad yn disgyn yn y teulu yng Ngwynedd, a thebyg ei bod ym Mhowys hefyd, er gwaethaf tystiolaeth Madog Ddu gerbron Comisiwn Edward I.[6]

Gellir mentro dweud mai'r tylwyth hwn o ddisgynyddion Cilmin Droetu—neu'n wir o ddisgynyddion Gwrydr—yw'r tylwyth pwysicaf o wŷr cyfraith yng Nghymru. Rhoddodd Iorwerth ap Madog ap Rhaawd[7] ei ffurf derfynol i lyfr cyfraith llawnaf y drydedd ganrif ar ddeg; a'i ewythr, cefnder ei daid, Cyfnerth ap Morgeneu, meddir, a luniodd lyfr cynharach a ddatblygodd yn un o'r 'dulliau' a gopiid yn helaeth.[8] Nid rhyfedd ychwaith i'r tylwyth hwn wneud cymaint: yr oedd eu sefyllfa yn Arfon yn rhoi eithaf mantais iddynt i ddatblygu eu crefft yn nyddiau gogoniant Gwynedd. Ac fe sylwir fod cysylltiadau eraill rhwng y tylwyth a'r tywysogion: bu Ystrwyth ap Gwrydr (os ef yw'r *Magister Ostrocius* a *Magister Estruit* y ceir cymaint o gyfeiriadau ato ym mhapurau swyddogol y cyfnod[9]) yn glerc i Lywelyn Fawr, a chanodd Einion ap Madog ap Rhaawd i Ruffudd ap Llywelyn Fawr. Dychymyg yn unig sy'n awgrymu fod Gruffudd ab yr Ynad Coch yn fab i Fadog Goch Ynad!

Gyda chymorth y daflen achau, gellir yn awr geisio dyddio Iorwerth ap Madog a Chyfnerth ap Morgenau. Am Iorwerth, drwy ei frawd Einion y gellir nesáu agosaf ato ef; y cwbl a wyddom am Einion yw iddo ganu awdl i Ruffudd ap Llywelyn, a hynny, gellir mentro, rhwng 1234 a 1238.[10] Fe ddisgwylid fod Iorwerth mewn oed i weithio ar y cyfreithiau tua'r un adeg ag yr oedd ei frawd yn canu, a'i fod felly yn ei flodau rhwng 1230 a 1240. Dyddiad braidd yn ddiweddarach a awgrymir gan gyff Owain ap Madog ap Rhaawd: yr oedd ŵyr Owain, 'Rees Thloyt', yn tyngu ffyddlondeb i'r Tywysog Du yn 1344,[11] a'i or-ŵyr, Cadwgan ap Rhys,

yn dal tir yn Ninlle yn 1352.[12] Yn ôl y cyfrif arferol, byddai Owain fel taid Rhys yn ei flodau tua 1284; fel hendaid Cadwgan, byddai yn ei flodau tua 1252. Os cyfaddawdir ar *circa* 1268, ceir yr un cyfnod, fwy neu lai, ag a awgrymir gan ddyddiadau hysbys Ystrwyth y clerc: cyfeirir ato ef mewn dogfennau swyddogol rhwng 1204 a 1222,[13] a disgwyliem fod ŵyr ei frawd yn byw rhyw drigain mlynedd yn ddiweddarach.

O edrych ar y gweddill o'r daflen achau, a sylwi ar enwau cynrychiolwyr y gwahanol welyau yn 1352, gellir gweld fod y dyddiadau oll yn weddol gyson â'r hyn a ddywedwyd eisoes. Sylwodd J. E. Lloyd ar awdl Einion ap Madog ap Rhaawd, ac ar bwys hynny, dywedodd am Lyfr Iorwerth 'the work can hardly have been put together before the first years of the thirteenth [century]'[14]; mae tystiolaeth yr achau'n awgrymu'n gryf na ellir gosod gwaith Iorwerth ap Madog ap Rhaawd lawer cyn 1240. Un darn o'r dystiolaeth achyddol sydd ar yr olwg gyntaf yn anodd ei ffitio i'r amserlen—y sôn am Wenllian ferch Ednywain fel mam Llywelyn ap Owain Gwynedd. Bu Llywelyn ap Owain Gwynedd farw yn 1165, yn ddigon hen i'w goffáu'n huawdl ym Mrut y Tywysogion[15]; a gellid tybio oddi wrth hynny y byddai Iorwerth, mab ei gefnder Madog, yn marw tua deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, sef cyn 1200. Ond mae'n gwbl bosibl fod Llywelyn yn marw'n ugain oed, ac nad oedd ei fam ond rhyw bymtheg oed yn ei eni ef; os felly, ganed hi tua 1130, a gellir heb dreisio dim ar y rheolau dyfalu gredu mai yn 1190 neu wedi hynny y ganed Iorwerth ap Madog. Ar y cyfan, mae'n lled ddiogel rhoi Iorwerth yn ei flodau tua 1240.

Yn ôl y daflen achau, mae Cyfnerth yn perthyn i genhedlaeth taid Iorwerth: gan hynny dylsai fod yn ei flodau tua thrigain mlynedd ynghynt nag Iorwerth—dyweder tua 1190. Gor-or-ŵyr iddo a oedd yn dal tir yn 1352; mae hynny'n gosod Cyfnerth tua 1232. Os Iorwerth Fychan ap Iorwerth Goch ap Heilin oedd yr Yereward Vaghan ab Yereward[16] neu'r Yereward Ffeughan[17] a wrhaodd i Edward o Gaernarfon yn 1301, yr oedd Cyfnerth yn ei flodau tua 1201 neu 1211; ond enw ar y mwyaf cyffredin yw Iorwerth i seilio dadl arno. Gwell bodloni ar ddweud fod Cyfnerth yn ei flodau rywbryd rhwng 1190 a 1230—dyweder tua 1210.

Pan eir i edrych ar y llyfrau cyfraith yng ngoleuni'r dyddiadau a awgrymir, fe welir fod y gwahaniaeth cyfnod rhwng Cyfnerth ac Iorwerth yn gyson â'r gwahaniaeth rhwng y llyfrau a gysylltir â'u henwau; mae 'Llyfr Cyfnerth' yn fwy cyntefig na 'Llyfr Iorwerth'. Ond mae'r dyddiad a awgrymir i Iorwerth yn codi un neu ddau o gwestiynau: cwestiwn oed y Llyfr Du o'r Waun, a'r cwestiwn pa waith a wnaeth Iorwerth mewn gwirionedd. Dyddiwyd y Llyfr Du tua 1200 neu 1225 gan Gwenogvryn Evans[18]; deallaf na dderbynnir y dyddiadau hynny (mwy nag eraill o'r eiddo) mwyach, ac maent yn rhy gynnar o dipyn yn wyneb y dystiolaeth a drafodwyd uchod, yn enwedig o gofio fod lle i gredu mai ffurf gymharol ddiweddar ar Lyfr Iorwerth a geir yn y Llyfr Du[19]. Wrth gwrs, nid yw'n hollol sicr fod llsgr. *C* yn iawn wrth ychwanegu'r *ap Rhaawd* at enw Iorwerth; ond fe sgrifennwyd y llawysgrif yn ddigon agos i oes Iorwerth i'n gorfodi i geisio rhesymau cryfion dros ei hamau.

Gwyddom fod cryn gopïo a golygu ar Lyfr Iorwerth rhwng yr adeg y lluniwyd ef a'r adeg y sgrifennwyd y Llyfr Du; er mwyn caniatáu digon o amser i'r gwaith

hwnnw, ceisiwn osod gwaith golygu Iorwerth mor gynnar yn ei oes ef ag a ellir, ac oherwydd hynny tueddaf i gredu na ellir dilyn y llawysgrifau sy'n priodoli mwyaf o waith iddo. Fe sylwir mai'r atodiad i'r Llyfr Prawf yn unig a ychwanegodd ef, yn ôl y llawysgrifau hynaf; un gangen o deulu'r llawysgrifau yn unig sy'n rhoi'r clod iddo am gynnull y Llyfr Prawf ei hun.[20] Dichon yn hawdd fod y Llyfr Prawf wedi'i gynnull cyn amser Iorwerth; os felly, rhyw olygydd diweddarach a briodolodd y gwaith hwnnw iddo ef. Hyd yn oed felly, mae'n amlwg oddi wrth y modd y dyfynnir ei farn fod Iorwerth ap Madog yn awdurdod uchel ar gyfraith Cymru'r drydedd ganrif ar ddeg.

### *Atodiad: Ffynonellau'r Daflen Achau*

1. Tybiaf mai gyda 'Bonedd Gwŷr Arfon' (neu 'Gwehelyth Arfon') y dylid cychwyn, gan fod lle i gredu fod y defnydd hwnnw wedi'i gynnull yn y ffurf sydd gennym yn gynharach na'r taflenni achau. Os cywir y dywedodd John Jones, Gelli Lyfdy, mai o lawysgrifau o'r unfed ganrif ar ddeg a'r drydedd ar ddeg y copïodd ef gynnwys 'Hanesyn Hen' (Breese MS. 25 yn Llyfrgell Rydd Caerdydd), mae'r defnydd yn mynd yn ôl i oes y dynion a enwir ynddo. Mae ffurf ychydig yn llawnach ar y Bonedd yn Llyfr Syr Tomas ap Ieuan ap Deicws (Peniarth 127), td. 91:

> Kyfnerth vychan ap kyfnerth ap Morgenev ap Gwrydr ap Dyfneint ap jddon ap jdic eraill a ddywaid meuric ap jdic ap llywarch ap lleon ap kilmin droettv.
>
> Ierwerth a Chynwric a Thrygyr a Thudwal gam meibion oeddynt i Riwallon ap Gwrydr ap dyfnaint ap jddon. Mam jer*werth* a chyn*wric* a thrygyr oedd leukv ver*c*h wrgenev ap seysyllt ap jthel
>
> A mam Tudwal gam ap Riwallon oedd yneigr ver*c*h dudvwlch ap Tegwared or ddol yn Edernion.
>
> [92]Cadwgon a Mad*oc* coch ynad a jer*werth* wisgi meibion Riwallon ap kynddelw ap Gwrydr ap Dyfnaint.
>
> Mad*oc* ap Ranawt ap Ednywain ap Gwrydr ap dyfneint ap jddon ap jdic Ierwerth goch ap ystrwyth ap Ednywain ap Gwrydr ap Dyfneint.

2. Yn y taflenni achau ceir peth anghysondeb rhwng gwahanol lawysgrifau, a pheth cymysgu ar ddynion o'r un enw; mae'n bur sicr fod ambell ddyblad yn ymddangos yn y llawysgrifau. Bellach nid oes fawr o obaith datrys y gymysgedd yn llwyr, ond credaf fod y daflen a roddwyd uchod yn weddol gywir yn ei hanfodion. Testun Llyfr Achau Robert Vaughan (Peniarth 287, rhan ii, tdd. 957ff.) a ddilynwyd yn bennaf, ond fe'i cywirwyd yng ngoleuni ffynonellau eraill, a nodir y cyfnewidiadau yma:

(*a*) Yng nghyff Morgenau y mae'r cyfnewidiad pwysicaf. Yn ôl Llyfr Robert Vaughan a bron pob llawysgrif arall, yr oedd dau Forgenau, y naill yn fab Gwrydr a'r llall yn fab Madog ap Gwrydr; yr oedd Hywel

(tad Morfudd) yn fab i Iorwerth Fychan ap Iorwerth Goch ap Iorwerth Wyddel ap Heilin ap Cyfnerth ap Morgenau ap Gwrydr, a Hywel Ddu yn fab i Ednyfed ab Einion ap Iorwerth Goch ap Heilin ap Gruffudd ap Morgenau Ynad ap Madog ap Gwrydr. Credaf mai dybladau yw'r ddau Forgenau. Mae'n ddigon amlwg fod cymysgu yn digwydd; ni welais lawysgrif lle yr olrheinid ach Hywel Ddu i Forgenau ap Gwrydr, ond yn Peniarth 128, td. 339, fe wneir Hywel Ddu yn fab i Ednyfed ab Einion ap Ieuan ap Iorwerth Goch ap Ystrwyth ap Ednywain ap Gwrydr. Hefyd petasai cyff Madog ap Gwrydr yn bod, mae'n anodd deall pam na chyfeirir ato ym Monedd Gwŷr Arfon; mae'n anodd hefyd gredu fod dynion a oedd yn tarddu o ddau Forgenau gwahanol yn perthyn i'r un Gwely Wyrion Morgenau, fel yr oedd Ednyfed ab Einion a Hywel ap Iorwerth. Fe sylwir fod rhai o'r un enwau yn digwydd yn y ddau gyff tybiedig, a chan hynny mentrwyd eu hasio'n un. Bwriwyd Iorwerth Wyddel allan (gyda chydsyniad llsgr. B.M. Harl. 1969, td. 470) gan dybio ei fod yn ddyblad ar Iorwerth Wyddel a geir mewn cyff arall yn tarddu o Idnerth, brawd Iddig ap Llywarch.

(*b*) Yn Llyfr Robert Vaughan, Tudwal *ap Gwrydr* yw tad Annes; ni sonnir am gyff y Tudwal hwn ym Monedd Gwŷr Arfon, a diogelach yw dilyn Harl. 1969, td. 466, lle y gwneir Annes yn ferch i Dudwal ap Rhiwallon ap Gwrydr. Teg yw nodi fod rhai llawysgrifau'n gwneud Ystrwyth yn fab i Dudwal ap Gwrydr (felly'r 'Golden Grove MS.'); ond yma dilynwyd Llyfr Robert Vaughan sy'n cytuno â Bonedd Gwŷr Arfon.

(*c*) Rhwng Einion ac Iorwerth Goch ab Ystrwyth, fe ychwanegir cenhedlaeth arall mewn rhai llawysgrifau—Iddon yn y *Golden Grove MS.*, Ieuan yn B.M. Add. 14916, ff. 21*r*, a B.M. Harl. 1969, td. 466. Efallai mai'r llawysgrifau hynny sy'n iawn, ond gan fod 'Ygnon ap Yereward' yn un a wrhaodd i Edward o Gaernarfon yn 1301[21] dilynir Llyfr Robert Vaughan yn y fan hon. Drwy wneud hynny, gosodir Tudur Goch ap Gronw (a oedd yn aelod o Wely Wyrion Ystrwyth yn 1352) yn yr un genhedlaeth â chynrychiolwyr Gwely Wyrion Morgenau, yn lle bod yn yr un genhedlaeth â'i wraig ei hun, merch un o'r cynrychiolwyr hynny.

(*ch*) Gellir dwyn Cadwgan ap Rhys, cynrychiolydd Gwely Wyrion Rhaawd, i'r un genhedlaeth os dilynir yr ach a geir yn Peniarth 134, td. 236, 'm*am* morvydd, llevkv v*erch* R*ys* ap kadwgon ap R*ys* llwyd ap kyn*wric* ap mad*oc* rad ap Ednowain ap gwryd . . .' (gan ychwanegu *ap* rhwng Madog a 'rad'). Eithr mae'r ach sy'n rhoi Margred ferch Rhys ap Ieuan ap Rhys ap Cadwgan inni yn cadarnhau darlleniad Llyfr Robert Vaughan; yn ôl Peniarth 139, rhan ii, td. 237, 'm*am* hari ap W*iliam* margred v*erch* Rys ap jeu*an* ap Rys ap kad*wgan* ap Rys lloyd ap Gruff ap Owain ap Mad*oc* ap Readr ap gwrydr . . .' A chan mai Rhys

Llwyd, nid Cadwgan ei fab, a fu'n gwrhau i'r Tywysog Du yn 1344, gellir tybio mai gŵr ieuanc oedd Cadwgan yn 1352, a'i fod yn perthyn i genhedlaeth iau na'r deiliaid eraill; gwell gan hynny adael Owain a Gruffudd rhwng Madog a Rhys Llwyd.

3. Ni welais gyfeiriad at nac Einion ap Madog nac Iorwerth ap Madog mewn llyfr achau neu gofnod swyddogol. Ceir yr awdl i Ruffudd ap Llywelyn o waith Einion yn Llawysgrif Hendregadredd, ac yn y llyfrau cyfraith yn unig y cyfeirir at Iorwerth.

4. Ceir rhestr o blant Owain Gwynedd yn Hanesyn Hen (td. 58), Peniarth 127 (td. 78) a llawysgrifau eraill; yn ôl Hanesyn Hen, 'Llywelyn ap ywain Gwenlliant ferch Ednywain ap Gwrydyr oedd y fam'. Mae'r rhestrau hyn yn llawnach o dipyn na rhestr J. E. Lloyd yn H.W. 549 n.64.

5. Ar sail y cofnodion am *villa* Dinlle yn *Rec. Caern.* 22–3 yr ychwanegwyd meibion Trygyr ap Rhiwallon ap Gwrydr. Yr oedd yn Ninlle saith wely cyfan: *Wele Werion Eign.*, *Wele de Werion Mourgene*, *Wele de Werion Rand'*, *Wele de Werion Ostroyth*, *Wele Wyskyed*, *Wele Hebbogothion*, *Wele Bodwynyod*; a rhannau o bum gwely arall: *Wele Werion Jor.*, *Wele Keu. ap Tregir*, *Wele Pilth ap Tregir*, *Wele Edenewein ap Tregir*, *Wele Kefu'th ap Tregir*. Nodir rhai o'r deiliaid ym mhob gwely; mewn tri yn unig y gellais adnabod enwau sy'n digwydd yn yr achau—enwir yng Ngwely Wyrion Morgenau 'hoell ap Jor. Eden ap Eign. & Alij', yng Ngwely Wyrion Rhaawd 'Res Munyth Cad. ap Res & Al', ac yng Ngwely Wyrion Ystrwyth 'Tud. gogh ap Gron. Jeuan ap Griffuth Vaghan & Alij'.

6. Dylid dweud gair am yr enw Rhaawd. Mae'n amlwg iddo fynd yn ddieithr i'r rhai a oedd yn sgrifennu'r llyfrau achau yn eithaf cynnar; ceir amrywiaeth mawr o ffurfiau arno—Rad (Peniarth 134, 236), Radr (yn ogystal â Rahawd, Peniarth 287, rhan ii, 957), Readr (Peniarth 139, rhan ii, 237), Rrayhad (Peniarth 176, 266), Ranawl (Golden Grove MS.), Ranawt (Peniarth 127, 92) a Rahawt (Hanesyn Hen 96). *Rand'* yw darlleniad *Rec. Caern.*, ac ar y cyfan credaf mai hynny, nid *Raud*, sydd yn y llawysgrif, ac yn y llawysgrif arall o'r un testun sydd yng Ngholeg y Gogledd—copi hŷn, yn ol pob tebyg, na'r un yr argraffwyd ohono (sef B.M. Harl. 696). Nid oes angen tybio fod y d' yn arwyddo byrfodd, a gallwn fentro mai camddarllen y nodiadau a oedd o'i flaen a wnaeth y sgrifennwr gwreiddiol wrth droi *Raud* yn *Rand'*. Mae'n werth sylwi fod yr enw *Rand* yn digwydd droeon yn argraffiad y *Survey of the Honour of Denbigh*; mae mwy nag un gŵr yn dwyn yr enw, ond yr amlycaf ohonynt yw 'Rand Vaghan ap Asser'. Bu Dr. Geraint Gruffydd a'r Athro Idris Foster mor garedig ag astudio lluniau o'r llawysgrif wreiddiol drosof, a sicrhânt fi mai *Raud* yw'r darlleniad cywir mewn rhai mannau, er bod *Rand* hefyd yn digwydd yn y llawysgrif. Ceir llawer o amrywiaeth yn ffurf enw'r Rhaawd hwn hefyd yn y llyfrau achau: Radfach a Rad vach (Peniarth 128 *passim*, B.M. Stowe 669, 112*r*), Rad nev Raydr (Peniarth 127, 62), Rayadr bach (Peniarth 127, 54), Rolant (Peniarth 127, 92), Ralaut (Peniarth 177, 156), a

Rahawt (Hanesyn Hen 99). Eithr po hynaf yw'r dystiolaeth, mwyaf cyson yw hi â'r ffurfiau a geir yn llsgr. *C* o'r Cyfreithiau, *Rahavt*, ac yn Llawysgrif Hendregadredd, *Rahavd*. Diau felly ein bod yn iawn wrth ei ddiweddaru yn y ffurf *Rhaawd* neu *Rhahawd*.

*Cydnabod.* Carwn ddiolch i'r rhai a enwyd uchod am eu cymorth, a hefyd i eraill y bûm yn manteisio ar eu gwybodaeth ac yn trafod y pwnc â hwy—Mr. Evan D. Jones, Mr. Francis Jones, yr Athro G. P. Jones, yr Athro T. Jones Pierce, a Dr. Aled Wiliam.

DAFYDD JENKINS.

*Aberystwyth.*

*NODIADAU*

[1] L.W. 522, *Cal. Welsh Rolls*, 195.

[2] Cyfeirir at y llawysgrifau wrth y llythrennau a ddefnyddiodd Aneurin Owen, ac eithrio *Ll* am Lawysgrif Goll Llanforda (gw. *B.B.C.S.*, xiv, 89) a *Col* am Peniarth 30.

[3] iii., 432–3. Diau fod gwŷr fel Morus Glyn a William Glyn, y ddau LL.D. o Lynllifon, a Syr John Glynne o Benarlâg (gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig*) yn sylweddoli hyned oedd traddodiad cyfreithiol y teulu.

[4] *Llyfr Blegywryd*, xv. [5] Felly y cefais ar ddeall gan Dr. D. A. Binchy.

[6] 'Requisitus si ipse Judex fuit jure hereditario sic uti sunt in Northwallia, dicit quod non.' L.W. 530.

[7] Gan inni weld fod Iorwerth ap Madog ap Rhaawd yn perthyn i dylwyth o wŷr cyfraith, diau fod llsgr. *C* yn iawn wrth ddweud mai ef a welodd fod yn gryno ychwanegu at y Llyfr Prawf.

[8] Felly, er bod y copïau sydd ar gael heddiw o Lyfr Cyfnerth yn ei gysylltu â'r De, o'r Gogledd y cychwynnodd y llyfr hwnnw. Nid awgrymir, wrth gwrs, fod y llawysgrifau sydd gennym yn rhoi inni'r testun a baratodd Cyfnerth; mae'n ddigon sicr fod llawer wedi'i ychwanegu at hwnnw'n ddiweddarach. Dichon mai yn y Gogledd y sgrifennwyd llsgr. *U*, yr unig un sy'n priodoli'r gwaith i Gyfnerth; *chw-* a geir ynddi yn hytrach na *wh-*, ac mae ei sgrifen yn debyg iawn i eiddo llsgr. *G*, 'deddfgrawn' sy'n tynnu'r rhan fwyaf o'i gynnwys o'r un ffynonellau â llawysgrifau Llyfr Iorwerth (gw. *C.LL.G.C.*, viii, 102).

[9] gw. H.W., 622 n. 55, a'r cyfeiriadau eraill a restrir yn y mynegai.

[10] *Llawysgrif Hendregadredd*, 54. Awgrymir '*c.* 1237' ar gyfer Einion yn yr ysgrif arno yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*; aeth Mr. D. Myrddin Lloyd dros yr awdl gyda mi cyn i honno ymddangos, a dod i'r un casgliad, gan mai yn y cyfnod hwnnw yn unig y byddai Gruffudd yn ddigon uchel ei barch i neb ganu iddo. Mae'r cyfeiriad ato fel 'pendefic crukyeith' yn awgrymu i mi fod Eifionnydd yn ei feddiant ar y pryd, er na sonnir am hynny yn y croniclau: gw. H.W. 692.

[11] *Arch. Camb.*, supplementary vol. (Orig. Documents), 1877, cliii.

[12] gw. yr Atodiad am bob cyfeiriad at ddeiliaid tir Dinlle. [13] H.W. 622 n. 55.

[14] H.W. 355. [15] H.W. 549; *Brut y Tywysogion, Peniarth MS.* 20, 112b.

[16] Edward Owen, *A List of those who did Homage and Fealty to the First English Prince of Wales*, 18 (rhif 413).

[17] *Ibid.*, 27 (rhif 647). [18] *Rep.*, i, 359, *Cy.* xxxiv, 76–7. [19] gw. *B.B.C.S.*, xiv, 89ff.

[20] Mae llsgr. *F.* (Peniarth 34), sy'n rhoi rhagymadrodd byr i'r Llyfr Prawf, yn sôn am y llyfrau a oedd yn sail iddo, ond ni ddywedant mai Iorwerth a'i cynullodd ohonynt. Dyma ragor o dystiolaeth o blaid credu nad oedd son am Iorwerth yn y ffurf wreiddiol ar y Llyfr Prawf.

[21] Edward Owen, *A List of those . . .*, 18 (rhif 388).